

# e-GADWYN

e-newyddlen Cadwyn Clwyd

rhifyn 1 Ionawr 2011

## Yn y rhifyn yma:


hwb gwerth £2.4 miliwn

mae barti ddu yn ôl

bws crwydro bryniau clwyd yn dychwelyd

dyddiau radio

bwyd ar y map

pŵer dŵr

tafarn werdd

dyfodol disglair

gadael eu nod

teithiau gwe


parhad >

# hwb gwerth £2.4 miliwn i gefn gwlad sir y fflint

Mae cefn gwlad Sir y Fflint wedi derbyn hwb ariannol aruthrol gwerth £2.4 miliwn yn ystod y tair blynedd diwethaf, i adfywio economi'r ardal.
Mae'r asiantaeth datblygu gwledig Cadwyn Clwyd wedi buddsoddi'r chwistrelliad ariannol enfawr o Gronfa Amaethyddol Ewrop ar gyfer Datblygu Gwledig a Llywodraeth Cynulliad Cymru trwy Gynllun Datblygu Gwledig Cymru 2007-2013 mewn cyfres o brosiectau adfywio arloesol a chyffrous ar hyd a lled cefn gwlad Sir y Fflint.
Roedd y prosiectau yn dathlu hanes yr ardal, yn annog y celfyddydau, yn ysgogi busnesau a thwristiaeth ac yn hyrwyddo ei thirwedd, ei hamaethyddiaeth a'i chynnyrch.
Roedd Gweinidog Materion Gwledig Cymru, Elin Jones, yn croesawu'r cyrhaeddiad nodedig. Meddai: "Rwy'n falch iawn ein bod wedi gallu buddsoddi swm mor sylweddol o arian mewn cymaint o brosiectau gwerth chweil sy'n helpu i wella ansawdd bywyd yng nghefn gwlad Sir y Fflint.
"Rwyf wedi diogelu'r cyllid ar gyfer y Cynllun Datblygu Gwledig yng nghyllideb ddrafft Llywodraeth y Cynulliad fel ein bod yn gallu parhau i wneud popeth o fewn ein gallu i wneud yr economi wledig yn fwy cystadleuol a'i hannog i arallgyfeirio."
Mae dau o Gynghorwyr Sir y Fflint, sef Carolyn Thomas, aelod o fwrdd Cadwyn Clwyd ac aelod o Bartneriaeth Wledig Sir y Fflint, a Matt Wright, Aelod Cabinet dros Adfywio a Thwristiaeth, sydd hefyd yn aelod o Bartneriaeth Wledig Sir y Fflint, yn hynod o falch o lwyddiant y prosiect tair blynedd.
Meddai'r Cynghorydd Carolyn Thomas: "Mae Cadwyn Clwyd wedi ariannu cynlluniau sydd wedi dod â chymunedau at ei gilydd, gan weithio ar fentrau a oedd yn deillio o grwpiau lleol na fyddent wedi gweld golau dydd heb gefnogaeth ei swyddogion prosiect.
"Mae wedi helpu grwpiau cymunedol i lenwi'r ffurflenni, gan gynnig cyngor a gwneud yn siŵr fod cynlluniau yn cydymffurfio â rheolau cymhleth y Gymuned Ewropeaidd er mwyn sicrhau grantiau ariannol. Mae wedi cymryd syniadau pobl a helpu i'w gwireddu.
"A dweud y gwir, heb ei arbenigedd a'i wybodaeth ni fyddai'r cynlluniau gwerthfawr ac arloesol yma wedi digwydd, nid dim ond heb yr arian y maen nhw wedi llwyddo i'w ddenu ond hefyd heb ei arbenigedd wrth ddod â mudiadau, cymunedau ac asiantaethau ynghyd."
Ychwanegodd y Cynghorydd Matt Wright: "Mae Cadwyn Clwyd yn gwneud gwaith aruthrol ac yn darparu cymorth o'r radd flaenaf i'n helpu drwy'r broses o lenwi'r ffurflenni priodol i ymgeisio am grantiau."

*parhad yma…*



*Lowri Owain, Rheolwr Cwmni Cadwyn Clwyd, gyda Chynghorwyr Sir y Fflint Carolyn Thomas, Cyfarwyddwr Cadwyn Clwyd, a Matt Wright.*

Cronfa Amaethyddol Ewrop ar gyfer Datblygu Gwledig: Ewrop yn Buddsoddi mewn Ardaloedd Gwledig
The European Agricultural Fund for Rural Development: Europe Investing in Rural Areas

LEADER

Llywodraeth Cynulliad Cymru
Welsh Assembly Government

CADWYN Clwyd
Asiantaeth Datblygu Gwledig
Rural Development Agency

Partneriaeth Cynllun Datblygiad Gwledig Sir Ddinbych
Denbighshire Rural Development Plan Partnership

CYNGOR Sir Ddinbych Denbighshire COUNTY COUNCIL

SIR Y FFLINT MEWN PARTNERIAETH
FLINTSHIRE IN PARTNERSHIP

CYNGOR Sir y Fflint Flintshire COUNTY COUNCIL

*parhad o dudalen 2…*

"Trefnwyd cyfres o brosiectau hefyd i ddarparu cyfleusterau cymunedol neu annog twristiaeth neu gefnogi cymunedau gwledig gyda phrosiectau cynaliadwy.

"Dros y blynyddoedd rhoddwyd arian i ganol trefi ac ardaloedd a ddisgrifir yn draddodiadol fel rhai difreintiedig ond mae pobl yn aml yn anghofio nad yw pawb sy'n byw yng nghefn gwlad yn gyfoethog, a bod ganddynt eu problemau eu hunain felly mae'r math yma o gyllid yn bwysig dros ben ac yn ddefnyddiol dros ben."

Daw'r cynllun tair blynedd presennol i adfywio cymunedau gwledig a'u heconomïau yn y sir i ben yn Chwefror ac meddai Rheolwr Cwmni Cadwyn Clwyd, Lowri Owain: "Roedd amseriad hyn yn berffaith er mwyn gwrthsefyll y tlodi economaidd sydd o'n cwmpas."

Daeth yr arian o Gronfa Amaethyddol Ewrop ar gyfer Datblygu Gwledig trwy Gynllun Datblygu Gwledig Llywodraeth Cynulliad Cymru a chafwyd cymorth ychwanegol gan Gyngor Sir y Fflint a Phartneriaeth Wledig Sir y Fflint.

Ymysg y gweithgareddau diwylliannol sydd wedi derbyn cymorth mae Gŵyl Gelfyddydau Sir y Fflint, sy'n para am fis ac a gynhelir yn flynyddol, Gŵyl Lyfrau yng Ngwaenysgor, Gŵyl Fwyd yr Wyddgrug a chystadleuaeth Cerddor Ifanc y Flwyddyn Caerwys.

Mae treftadaeth yr ardal wedi elwa ar brosiectau mor amrywiol â Chymdeithas Hanesyddol Cymuned Treffynnon a phrosiect 'Cofio am Ddoe' Rhydymwyn a greodd hanes llafar o'r gwaith cyfrinachol a wnaed yn ystod yr Ail Ryfel Byd yng Ngweithfeydd Dyffryn.

Yn ogystal â hynny mae menter bwyd-amaeth wedi cyflwyno cnydau mwy amrywiol ar draws y sir ac mae Bwrsariaeth Menter Wledig Sir y Fflint wedi helpu pobl ifanc, yn cynnwys meddyg tŷ a dyn trin coed, i sefydlu eu busnesau eu hunain.

Sefydlwyd llwybr 'geo-caching' arloesol i ymwelwyr â Choed Nercwys a Choed Moel Famau yn sgil prosiect twristiaeth ac erbyn hyn mae wyth o gymunedau gwledig wedi cyhoeddi eu llawlyfrau lleol eu hunain. Hefyd mae gwaith pwysig ar y gweill i wneud cefn gwlad ysblennydd Sir y Fflint yn fwy hygyrch trwy ei rwydwaith o lwybrau cerdded.

Meddai Lowri Owain: "Rydym yn eithriadol o falch o fod wedi diogelu a chyflwyno'r cyllid yma sydd wedi ein galluogi i feithrin arloesedd, helpu busnesau lleol a datblygu'r economi leol yng nghefn gwlad Sir y Fflint.

"Rydym wedi cynnal wyth prosiect gwahanol yn cefnogi amrywiaeth eang o weithgareddau sy'n cael eu rhedeg gan Gadwyn Clwyd yn yr ardal, o dwristiaeth i ynni ac o dreftadaeth i wyliau.

"Mae'n golygu bod cronfa fawr o arian wedi'i gwario yn y sir dros y tair blynedd diwethaf.

"Roedd yr amrywiaeth o brosiectau yn ehangach nag erioed o'r blaen ac mae wedi cynyddu'r adnoddau sydd ar gael i helpu cymunedau'r ardal.

"Bydd hyn yn darparu treftadaeth barhaol i gefn gwlad Sir y Fflint ac ar yr un pryd, bydd yn cynyddu nifer yr ymwelwyr ac yn annog arloesedd a sgiliau entrepreneuraidd.

"Rydym wedi gweithio'n galed iawn i gael gafael ar yr arian yma a bellach mae ffrwyth y gwaith caled yna'n cael ei weld ar draws y sir ar ffurf prosiectau a ddatblygwyd mewn ymgynghoriad agos â'r cymunedau lleol."

Yn ddiweddar roedd Cadwyn Clwyd yn rhan o'r achlysur a gynhaliwyd i ddathlu pen-blwydd y Tŵr Jiwbilî ar Foel Famau yn 200 oed, pan ddaeth 5,000 o bobl, llawer ohonynt o Lannau Mersi a Sir Gaer, at ei gilydd ar noson ym mis Hydref i fwynhau'r tân gwyllt a'r sioe oleuadau.

Ychwanegodd Lowri Owain: "Yma yng Ngogledd Ddwyrain Cymru, mae gennym boblogaeth enfawr ar ein trothwy yng Ngogledd Orllewin a Chanolbarth Lloegr.

"Mae gennym gymaint i'w gynnig ac mae yna gyfle enfawr i fanteisio ar botensial y farchnad honno fel bod ymwelwyr yn dod i aros yn yr ardal.

"Cynllun cyffrous arall yw Bwrsariaeth Fenter Sir y Fflint sy'n helpu pobl ifanc rhwng 18 a 30 oed i gychwyn eu busnesau eu hunain trwy gynnig cyngor ymarferol ac arian parod iddynt roi eu cynlluniau ar waith.

"Rydym wedi gallu eu helpu i gyflwyno achosion busnes trylwyr a threfnus i ni a'u helpu trwy roi hyd at £1,000 o arian wedi'i dargedu.

Am fwy o wybodaeth, cysylltwch â Chadwyn Clwyd naill ai drwy ffonio 01824 705802 neu drwy e-bostio: lowri.owain@cadwynclwyd.co.uk



*Roedd Tom Blomfield yn cystadlu ar yr obo yng nghystadleuaeth Cerddor Ifanc y Flwyddyn Caerwys*

# rhifau sy'n gwneud synnwyr

Mae'r rhifau yn creu argraff, 14 o brosiectau pwysig yn ymgorffori dros 150 o gynlluniau unigol mewn cyfnod o dair blynedd ac mae'r cyfan yn golygu bod y swm aruthrol o fwy na £5.3 miliwn wedi'i chwistrellu i economïau gwledig Sir Ddinbych a Sir y Fflint.

Dyna yw'r effaith y mae'r asiantaeth adfywio gwledig Cadwyn Clwyd yn ei chael gyda chefnogaeth Cronfa Amaethyddol Ewrop ar gyfer Datblygu Gwledig trwy Gynllun Datblygu Gwledig Llywodraeth Cynulliad Cymru 2007-2013.

Yn Sir y Fflint mae wedi golygu cyfraniad o £2.4 miliwn a £2.9 miliwn yn Sir Ddinbych ac mae'r prosiectau hynny wedi ymdrin â phopeth o amaethyddiaeth a bwyd hyd at hanes a'r celfyddydau i drafnidiaeth a thwristiaeth wledig.

Lansiwyd cynlluniau sy'n torri tir newydd hefyd, fel y fenter Pub Is The Hub gyntaf yng Nghymru, estyniad o'r fenter lwyddiannus sydd wedi derbyn cefnogaeth y Tywysog Charles i achub tafarndai gwledig a'u hailgysylltu â'u cymunedau.

Mae prosiect cyffrous hefyd yn gobeithio helpu'r cymunedau hynny i fanteisio ar fentrau ariannol newydd gan y llywodraeth i harneisio pŵer dŵr a phŵer o ffynonellau adnewyddadwy eraill i greu ynni.

O'i bencadlys yn Rhuthun mae tîm Cadwyn Clwyd wedi gweithio gyda mudiadau a chymunedau gwledig yn y ddwy sir i droi'r prosiectau yma'n realiti a'u rhoi ar waith.

Gall unrhyw un sydd â diddordeb ym Mhrosiectau Cadwyn Clwyd gysylltu drwy ffonio 01824 705802, e-bostio admin@cadwynclwyd.co.uk neu fynd i'r wefan www.cadwynclwyd.co.uk

# Io ho ho a photel o seidr – mae Barti Ddu yn ôl

Arferai'r môr-leidr Cymreig chwedlonol Barti Ddu frawychu tiroedd Sbaen a bellach mae'n ôl ac mae meistr y moroedd yn ysbeilio'r gwobrau unwaith eto.

Ond y tro yma daw'r Barti Ddu dan sylw o un o fryniau Gogledd Cymru ac mae'n felys a mwyn ei natur er ei fod yn profi i fod yn un anodd ei guro yn y sioeau gwledig.

Y rheswm am hynny yw mai seidr melys yw Barti Ddu, neu Black Bart, sy'n cael ei wneud o afalau a dyfir ym mherllan seidr uchaf Cymru. Dyma'r ychwanegiad diweddaraf i gasgliad y gwneuthurwr seidr Steve Hughes o ddiodydd sy'n ennill gwobrau.

Mae'r dyn 47 oed o Landegla wedi ennill llu o wobrau ers dechrau ei fusnes bedair blynedd yn ôl ac wrth i Black Bart ymuno â Rosies Triple D, Wicked Wasp a Rampant Ram mae'r duedd yn parhau eleni.

Bellach mae Steve yn gobeithio y bydd gwefan newydd sbon a siop seidr yng nghartref y teulu yn Dafarn Dywyrch, ger Llandegla, yn dod â'i gynnyrch i sylw cynulleidfa fwy nag erioed.

Derbyniodd gymorth i sefydlu'r wefan newydd, www.rosiestripledcider.co.uk, gan yr asiantaeth datblygu gwledig Cadwyn Clwyd trwy ei Brosiectau Bwyd-Amaeth yn Sir Ddinbych a Sir y Fflint a fydd yn darparu 80 y cant o'r gost ac mae'n awyddus i ddenu mwy o gynhyrchwyr bwyd a choedwigaeth o Sir Ddinbych i'r cynllun.

Meddai'r Swyddog Prosiect Lowri Williams: "Mae Steve yn enghraifft wych o'r math o arloesedd, dychymyg a gwaith caled sy'n gwneud busnes llwyddiannus.

"Mae'n llunio cynnyrch rhagorol o gynhwysion lleol, sy'n cael eu tyfu yma ar y fferm lle mae ei deulu wedi byw ers cenedlaethau."

Yn y Pencampwriaethau Perai a Seidr Cymreig yn y Fenni eleni, enillodd ei seidr canolig Wicked Wasp a Triple D wobrau cyntaf a daeth Black Bart a Rampant Ram i'r ail safle, yn ogystal â pherai - seidr gellyg - newydd sbon.

Mae Black Bart yn cael ei aeddfedu mewn casgenni rym o Farbados, yr holl ffordd o Fôr y Caribî, a arferai ddal rym enwog Mount Gay, ac mae Steve yn defnyddio casgenni wisgi ar gyfer y Wicked Wasp.

Erbyn hyn mae gan Steve a'i wraig Nicola 15 erw o goed afalau ar y fferm ac maen nhw'n cynhyrchu 50 tunnell o afalau'r flwyddyn, sy'n gwneud 5,000 galwyn o seidr a gaiff ei wasgu a'i botelu gan Steve ei hun.

Mae hanes hir i'r fferm – Dafarn Dywyrch – a chredir bod Charles Darwin wedi aros yno cyn i'r fordaith ar y Beagle ei wneud yn enwog. Ond doedd gan un o hynafiaid y teulu Hughes fawr i'w ddweud am yr awdur teithio Fictorianaidd George Borrow . Meddai Steve: "Roedd wedi dysgu Cymraeg a gofynnodd am gwrw a chaws ond gwrthododd y ddynes oedd yn cadw'r dafarn ar y pryd, Martha Hughes, â'u rhoi iddo, gan ddweud wrtho am hel ei bac. Ni allai gredu bod Sais yn gallu siarad Cymraeg."



*Gall Steve Hughes, yn y darlun gyda Lowri Williams o Gadwyn Clwyd, edmygu ei wefan newydd hyd yn oed pan fydd allan yn ei berllan.*

# gwasanaeth bws crwydro bryniau clwyd yn ôl




*Helen Mrowiec o brosiect y Grug a'r Caerau gyda Keira Derbyshire o Gadwyn Clwyd, Jamie Sant, Swyddog Rheilffyrdd Cymunedol ar gyfer Grŵp Llywio Llinell y Gororau, Peter Daniels, Rheolwr Is-adran Trafnidiaeth Teithwyr Cyngor Sir Ddinbych, David Bloore, Uwch Swyddog Trafnidiaeth Cyngor Sir y Fflint, a Margaret Owen o M&H Coaches.*

Unwaith eto rhoddodd gwasanaeth bws yr haf gyfle i bobl fwynhau hyfrydwch un o ardaloedd harddaf Gogledd Cymru – a denu ymwelwyr i'r ardal i ymuno â phrosiect cadwraeth hollbwysig.

Dechreuodd Gwasanaeth Bws Crwydro Bryniau Clwyd unwaith eto ar ddydd Sul yn ystod yr haf er mwyn rhoi cyfle i deithwyr fwynhau Ardal o Harddwch Naturiol Eithriadol Bryniau Clwyd a rhannau godidog eraill o Ogledd Ddwyrain Cymru.

Dechreuodd y casgliad newydd o wasanaethau ar ddydd Sul, 4 Gorffennaf gan redeg tan ddydd Sul, 26 Medi, yn cynnwys Dydd Llun Gŵyl y Banc Awst, o gyfres o byrth i'r rhan hyfryd hon o'r wlad.

Parc Gwledig Loggerheads, rhwng yr Wyddgrug a Rhuthun, oedd canolbwynt y llwybrau bws a oedd yn ffurfio rhwydwaith o wasanaethau'r haf i ddod â phleser cyrchfannau mor amrywiol â'r Tŵr Jiwbilî ar Foel Famau, i Safle Treftadaeth Byd Traphont Ddŵr Pontcysyllte a Llyn Brenig, yn uchel ar Fynydd Hiraethog, o fewn cyrraedd hwylus.

Partneriaeth rhwng Cynghorau Sir Ddinbych, Sir y Fflint a Wrecsam oedd yn darparu Gwasanaeth Bws Crwydro Bryniau Clwyd, ar y cyd â phrosiect y Grug a'r Caerau a'r asiantaeth datblygu gwledig Cadwyn Clwyd.

Un o brif hyrwyddwyr y cynllun oedd prosiect y Grug a'r Caerau ac meddai Rheolwr y Prosiect, Helen Mrowiec: "Fe wnaethom annog y rhai oedd yn defnyddio'r gwasanaeth i gyfrannu at amddiffyn yr amwynder naturiol gwych yma trwy ymuno â'n hymgyrch yn erbyn rhai sy'n mynd â cherbydau gyriant pedair olwyn a beiciau modur oddi ar y ffordd yn anghyfreithlon gan achosi llawer iawn o ddifrod.

"Roeddem yn eu hannog i nodi rhif arbennig sydd ar gael ar y bysiau a fyddai'n eu galluogi i ymuno ag eraill sy'n defnyddio ardaloedd agored cefn gwlad, y ffermwyr, y cerddwyr ac eraill, i adrodd am y fandaliaid."

Meddai Swyddog Prosiect Cadwyn Clwyd, Keira Derbyshire: "Rydym wrth ein bodd o allu chwarae ein rhan yn darparu'r gwasanaeth bws hamdden poblogaidd yma eto eleni trwy weithio mewn partneriaeth ag ymgyrch y Grug a'r Caerau, Gwasanaethau Cefn Gwlad a Chynghorau Sir a rhoi cyfle i bobl ddefnyddio trafnidiaeth gyhoeddus i ymweld â'r dreftadaeth a'r cefn gwlad ysblennydd sydd ar eu rhiniog yr haf yma."

# dyddiau radio – cymru ddi-wifr

A ninnau'n byw yn oes teledu digidol a darllediadau lloeren, mae'n anodd dychmygu'r wefr yr oedd 'radio stêm' yn arfer ei greu.

Ond mae prosiect arbennig yn cofnodi'r dyddiau euraidd hynny pan oedd y sylwebwyr yn creu'r darluniau wrth i deuluoedd cyfan ymgasglu o amgylch derbynyddion cyntefig yn eu parlyrau, i'r oesoedd a ddêl.

Y prosiect hanes llafar yw'r cam diweddaraf yn natblygiad ymddiriedolaeth elusennol yr amgueddfa Wireless in Wales/ Gwefr Heb Wifrau a sefydlwyd yn Ninbych yn 2002.

Cyn Faer Dinbych, David Jones oedd yn gyfrifol am y weledigaeth, gyda'r nod o hybu diddordeb yn hanes darlledu yng Nghymru a oedd, yn ei dyb ef, yn un o'r prif ffactorau a gyfrannodd at oroesiad yr iaith Gymraeg.

Bu farw David, peiriannydd gyda'r Awdurdod Darlledu Annibynnol, ddwy flynedd yn ôl yn dilyn brwydr yn erbyn canser, a hynny ychydig wythnosau'n unig cyn gwireddu ei freuddwyd o agor arddangosfa Gwefr heb Wifrau yn ei dref ei hun.

Mae Asiantaeth Datblygu Gwledig Cadwyn Clwyd wedi rhoi grant o £4,200 trwy ei Brosiect Treftadaeth Cymunedol Sir Ddinbych, gan ddefnyddio cyllid a dderbyniwyd drwy'r Cynllun Datblygu Gwledig sy'n cael ei ariannu gan Gronfa Amaethyddol Ewrop ar gyfer Datblygu Gwledig a Llywodraeth Cynulliad Cymru. Derbyniodd y cynllun gyllid pellach gan Gyngor Sir Ddinbych a Chyngor Tref Dinbych.

Canolfan Iaith Clwyd, sef canolfan astudio'r iaith Gymraeg, yw cartref yr arddangosfa, sy'n cynnwys setiau radio ac offer arall sy'n olrhain hanes darlledu yng Nghymru.

Mae gwraig David, Vesi, wedi cymryd yr awenau fel y sbardun i'r prosiect a bellach hi yw cadeirydd yr Ymddiriedolwyr sy'n gwthio'r prosiect hanes llafar yn ei flaen.

Meddai Swyddog Prosiect Hanes Cymunedol Cadwyn Clwyd, Adam Bishop: "Roedd y diweddar David Jones wedi hel casgliad rhyfeddol o setiau radio ac offer o ddyddiau cynnar darlledu.

"Mae hwn yn brosiect ardderchog a fydd yn cadw'r dyddiau hynny pan oedd y radio yn brif gyswllt gyda'r byd tu allan yn fyw yn y cof, yn ogystal â'i gyfraniad aruthrol at ddiogelu ac annog yr iaith Gymraeg.

"Mae hanes llafar yn adnodd hynod o bwysig a bydd atgofion pobl o'r ffordd yr arferent diwnio i mewn i'r newyddion i glywed am ddigwyddiadau mawr yn y



*Gwefr Heb Wifrau: o'r chwith, Vesi Jones, Clwyd Wynne a Bobi Owen gyda rhai o'r setiau radio a gasglwyd yn Ninbych.*

dyddiau cynnar hynny a'u hatgofion o wrando ar eu hoff raglenni'n creu archif hanesyddol amhrisiadwy."

Clwyd Wynne yw arweinydd y prosiect ac un arall o'r ymddiriedolwyr yw'r hanesydd lleol Bobi Owen, a ddywedodd: "Darlledwyd un o'r rhaglenni crefyddol cyntaf o Eglwys Santes Fair, Dinbych, ym 1934.

"Ond bydd gan bobl eu hatgofion eu hunain o bethau fel gornestau Tommy Farr, pan oedd miloedd yn tiwnio i mewn, a'r sioeau ITMA yn ystod y Rhyfel ac yn fwy diweddar, Radio Luxembourg a Radio Caroline."



# rhoi bwyd sir y fflint ar y map



*Bwyd, bendigaid fwyd, o'r chwith, Elen Jones, o Mabis; Lowri Williams, Cadwyn Clwyd; Rebecca Alfonso, Cyngor Sir y Fflint; Fred Boneham, Cyngor Tref yr Wyddgrug; Andrea Mearns, Cittaslow; a John Les Tomos, Gŵyl Fwyd yr Wyddgrug a Chyfarwyddwr Cadwyn Clwyd.*

Bydd prosiect uchelgeisiol yn tynnu sylw at fwydydd Sir y Fflint – ac yn eu rhoi ar fwy o blatiau.

Bwriad y cynllun yw creu map o bwy sy'n cynhyrchu beth a faint ohono a gweld sut y gellir ei farchnata orau.

Mae astudiaeth a gynhaliwyd gan Menter a Busnes, gyda chefnogaeth yr asiantaeth datblygu gwledig Cadwyn Clwyd, wedi nodi llu o bobl sy'n cynhyrchu popeth o gig byfflo i gwrw ac o berlysiau i fêl.

Gweld a allai'r Wyddgrug ddod yn ganolbwynt ar gyfer bwydydd Sir y Fflint yw'r nod, gan ei farchnata i'r cyhoedd ac i westai, bwytai a chaffis y rhanbarth.

Mae hwn yn brosiect cyffrous dros ben, yn ôl John Les Thomas, landlord y Royal Oak, yn Hendre, ger yr Wyddgrug a chadeirydd Gŵyl Fwyd lwyddiannus yr Wyddgrug.

Meddai: "Os ydym am annog busnesau lleol i ddefnyddio cynnyrch lleol yna rhaid iddyn nhw allu gwarantu'r cyflenwad, rhaid cael digon ohono a hwnnw'n gynnyrch safonol, cynaliadwy.

"Byddem yn hoffi gallu dod â hyn i gyd at ei gilydd o dan un to ar ffurf canolfan werthu yn yr Wyddgrug lle gall siopwyr alw heibio, a rhywle sy'n denu ymwelwyr i'r dref ac i'r sir.

"Yn ddelfrydol byddai hefyd yn cyflenwi gwestai a bwytai a hyd yn oed ysgolion lleol, o bosib."

Mae Cadwyn Clwyd wedi dod ag amryw o sefydliadau at ei gilydd fel rhan o'r prosiect yn cynnwys Cyngor Tref yr Wyddgrug, Cyngor Sir y Fflint a Cittaslow yr Wyddgrug – rhan o'r rhwydwaith rhyngwladol o drefi sy'n ceisio hyrwyddo ansawdd bywyd.

Mae Cadwyn Clwyd yn cefnogi'r astudiaeth trwy ei Brosiect Bwyd-Amaeth Sir y Fflint ac meddai'r Swyddog Prosiect Lowri Williams: "Rydym yn awyddus i greu brand bwydydd Sir y Fflint sy'n arbennig, wedi'u cynhyrchu a'u paratoi i'r safonau uchaf a dangos ei bod yn bwysig i ni fod y defnyddiwr yn eu mwynhau ac yn awyddus i flasu mwy.

"Rydym am eu helpu i ddarganfod y cyfoeth, yr amrywiaeth a'r ansawdd sydd gan Sir y Fflint i'w cynnig oherwydd mae gennym rwydwaith o gynhyrchwyr bwyd gwirioneddol dda ac mae angen i ni wneud yn siŵr fod pobl yn ymwybodol o hynny.

"Gŵyl Fwyd yr Wyddgrug yw un o'r rhai mwyaf poblogaidd yng Ngogledd Cymru ac mae'n denu pobl o bell ac agos ac mae angen i ni adeiladu ar ei llwyddiant."

Cynhaliwyd yr astudiaeth gan Elen Jones, o MABIS, rhan o Menter a Busnes sy'n rhoi cymorth arbenigol i unigolion, busnesau, cyrff cyhoeddus a grwpiau cymunedol sydd angen cymorth i ddatblygu.

Meddai: "Mae'r galw o du'r defnyddwyr yn cynyddu ac mae pobl eisiau gwybod o ble mae'r bwyd yn dod a beth yw ôl troed carbon y bwyd y maen nhw'n ei brynu ac yn ei fwyta.

"Rydym hefyd yn edrych ar y sector cyhoeddus fel marchnad bosib a'r ffordd y mae awdurdodau lleol yn caffael bwyd ar gyfer ysgolion ac ysbytai, ac yn ystyried a allwn fodloni'r galw.

# chwilio am don newydd o bŵer dŵr

Gallai afonydd, llynnoedd a nentydd Sir Ddinbych fynd yn weithredol eto i greu chwyldro hydro-electrig.
Hyd at y 1960au roedd amryw o ffermydd a stadau diarffordd – a phentrefi cyfan hyd yn oed – yn harneisio pŵer dŵr i ddarparu trydan ac yn awr mae'r asiantaeth adfywio gwledig Cadwyn Clwyd yn awyddus i ailafael yn yr arfer yma.
Mae wedi lansio prosiect i ailddechrau cynhyrchu pŵer hydro-electrig ar raddfa fach yng nghefn gwlad Sir Ddinbych ac mae'n chwilio am safleoedd addas.
Un o'r safleoedd dan ystyriaeth yw'r bryniau uwchben Gwyddelwern yn Nhŷ Ucha'r Llyn lle mae Dylan Parry yn cynrychioli chweched genhedlaeth ei deulu o amaethwyr.
Gosododd ei daid, Trefor Parry, gynllun pŵer dŵr ar ffurf tyrbin yn cael ei yrru gan ddŵr a sianelwyd o'r llyn uwchlaw'r fferm.
Roedd yn darparu goleuadau i'r tŷ yn ogystal â phweru peiriannau'r fferm yn cynnwys y peiriant godro ac roedd hyd yn oed yn corddi'r menyn y byddai gwraig Trefor Parry yn ei werthu ym marchnad Corwen.
Mae tad Dylan, Ifor, sydd bellach yn 77, yn ei gofio'n dda ac meddai: "Mae'n rhaid bod fy nhad wedi ei osod yn y tridegau - roedd gan lawer o ffermydd gynlluniau dŵr yn y dyddiau hynny oherwydd doedd yna ddim trydan.
"Roedden nhw'n gallu gwneud pethau anhygoel – roedden nhw'n ddyfeisgar dros ben."
Mae Swyddog Prosiect Ynni Cadwyn Clwyd, Silas Jones, wedi nodi amryw o safleoedd lle'r oedd cynlluniau pŵer dŵr yn y gorffennol ac meddai: "Roedd yna gannoedd ohonyn nhw'n llythrennol, ac rydym am weld faint ohonyn nhw y mae'n bosib i ni eu hailddefnyddio.
"Rwy'n credu bod cynllun hydro lleol yn pweru goleuadau trydan yn Llandegla ar un adeg fel ag yr oedd nifer o'r tai mawr fel Rug yn ogystal â llawer o ffermydd fel Tŷ Ucha'r Llyn.
"Rydym yn chwilio am safleoedd lle'r arferai cynlluniau fod yn weithredol ac am safleoedd newydd sbon. Mae angen llif cyson o ddŵr ynddyn nhw a chwymp neu bwysedd da ac mae yna dipyn go lew o arian grant ar gael i brosiectau ynni adnewyddadwy cymunedol."
Mae'r llyn uwchlaw Ty Ucha'r Llyn yn fwy na 16 troedfedd o ddyfnder ac nid yw erioed wedi sychu - hyd yn oed yng ngwres mawr haf 1976.
Mae pibell yn cludo dŵr i lawr i'r tŷ, a arferai ddarparu dŵr i'r anifeiliaid – roedd y tŷ yn derbyn dŵr yfed o ffynnon sy'n codi tu mewn i'r eiddo, coeliwch neu beidio.
Meddai Ifor Parry: "Roedd y tyrbin yn gallu malu maip a chorn i fwydo'r anifeiliaid. Roedd hyd yn oed yn corddi'r llaeth ar gyfer menyn ac yn pweru'r peiriant godro a gawsom ym 1947 yn ogystal â goleuo'r tŷ.
"Yna llwyddodd fy nhad i gael gafael ar hen fatris llong danfor ac roeddem yn eu defnyddio i storio'r pŵer ac roedd hynny'n golygu bod y goleuadau'n gweithio'n well, heb unrhyw gryndod.
"Ond roedd rhaid i chi fod yn ofalus oherwydd system cerrynt uniongyrchol 110 folt oedd hi, ac roedd ganddi gic fel mul."



*Ifor Parry, ar y chwith, a Silas Jones o Gadwyn Clwyd.*

# tafarn werdd trwy drefniant brenhinol



Mae plant yng Nghorwen yn garddio trwy drefniant Brenhinol diolch i landledi llawn menter yn un o dafarndai'r dref.
Mae Gwesty'r Eagles ar sgwâr y dref yn troi ei ardd yn rhandiroedd cymunedol fel rhan o'r cynllun Pub Is The Hub a gefnogir gan y Tywysog Charles.
Cafodd y landledi Lesley Hughes ei hysbrydoli ar ôl gweld rhaglen y cogydd teledu a'r amgylcheddwr Hugh Fearnley-Whittingstall, River Cottage. Meddai: "Gwelais o'n cynnal ffair fefus gyda ffrwythau a dyfwyd yn River Cottage, gyda'r gymuned gyfan yn cymryd rhan, a meddyliais yr hoffwn i wneud hynna.
"Y bore wedyn daeth taflen drwy'r drws am y cynllun Pub Is The Hub felly aethom ymlaen o'r fan yna."
Aeth â'r syniad at yr asiantaeth adfywio gwledig Cadwyn Clwyd a oedd newydd lansio'r prosiect tair blynedd Pub is the Hub cyntaf yng Nghymru, gwerth £175,000, yn Sir Ddinbych. Y Tywysog Charles yw noddwr y cynllun sydd wedi bod ar waith ers 2001 yn Lloegr.
Meddai Swyddog Gwasanaethau Gwledig Cadwyn Clwyd, Helen Roberts: "Roeddem yn meddwl ei fod yn syniad gwych a'r math o brosiect cymunedol sy'n gweddu i'r dim i'r rhaglen Pub is the Hub.
"Mae Lesley yn rhedeg tafarn deuluol iawn ei naws a'i bwriad yw cael pawb i gymryd rhan, yn hen ac ifanc, ac i'r bwyd sy'n cael ei gynhyrchu yn y rhandiroedd gael ei gynnig ar fwydlen y dafarn."
Mae Lesley a'i gŵr Keith wedi bod yn yr Eagles ers pum mlynedd ac ychwanegodd:
"Mae cymaint o fwyd yn cael ei brosesu'r dyddiau yma fel nad yw plant yn gwybod o ble mae'n dod.
"Rydym eisiau dangos iddyn nhw sut mae'n cyrraedd y plât o hadau ac rydym am iddyn nhw gymryd rhan. Maen nhw wedi bod yn frwdfrydig iawn a byddwn yn cynnal Clwb Garddio Plant yma ar ddydd Sadwrn ac yn ystod gwyliau'r ysgol.
"Rydym yn awyddus i bawb gymryd rhan felly rydym yn codi gwelyau fel y gall pobl hŷn a'r anabl ddod draw hefyd – rydym am i'r gymuned gyfan gymryd rhan ac i'r garddwyr a'r tyfwyr mwy profiadol drosglwyddo eu harbenigedd a'u brwdfrydedd i'r rhai iau."
Mae'r Tywysog Charles yn credu bod cymunedau cefn gwlad yn wynebu heriau nas gwelwyd eu tebyg erioed o'r blaen, a bod y dafarn wledig, sydd "wedi bod wrth wraidd bywyd y pentref ers canrifoedd, yn diflannu mewn sawl ardal."
Hoffai weld mwy o dafarndai yn cynnig gwasanaethau newydd fel swyddfa'r post neu siop a dyna yw nod Helen Roberts o Gadwyn Clwyd, a ddywedodd: "Rydym am i'r dafarn wledig fod wrth wraidd y gymuned."
"Mae llawer o dafarndai dan fygythiad ac rydym am i'r gymuned gymryd rhan yn ogystal â'r landlordiaid, trwy feddwl beth allan nhw ei wneud i achub eu tafarn leol.
"Dyma'r tro cyntaf i hyn gael ei wneud yng Nghymru ac rwy'n gwybod bod y Tywysog Charles yn cadw golwg fanwl ar y cynllun."

*Yr arddwraig ifanc Ella Roberts o Gorwen, gyda'i ffrindiau Elliott Roberts, Lois Watkins, Morgan Jones, Frankie Pierce a Bethany Pierce yn ei gwylio, gyda, o'r chwith, Helen Roberts, o Gadwyn Clwyd, yr adeiladwyr Neil Edwards, Gavin Roberts ac Eric Becker, Lesley Hughes, landledi'r Eagles a Natalie Roberts, mam Ella.*

# gyrfa ddisglair i sarah

Efallai nad aur yw popeth melyn – ond mae'n gyfle busnes euraid i Sarah Jackson.

Mae'r ferch 25 oed yn troi ei dawn am greu gemwaith hardd yn fusnes, gyda help llaw gan yr asiantaeth adfywio gwledig, Cadwyn Clwyd.

"Roeddwn wedi bod yn gwneud gemwaith i mi fy hun a'm ffrindiau ers sawl blwyddyn ac mae'n deillio o hynny," meddai Sarah, sy'n byw ym mhentref Treuddyn, ger yr Wyddgrug, gyda'i phartner Darryl Williams.

"Mae'n siŵr mai rhyw bum mlynedd yn ôl y dechreuais wneud gemwaith. Byddwn yn mynd i siop a naill ai eisiau rhywbeth oedd yn costio'r ddaear neu oedd ddim yn hollol yr hyn roeddwn eisiau, ac yn teimlo bod angen ychwanegu rhywbeth at y darn.

"Roeddwn yn gwneud darn i mi fy hun ac yna byddai fy ffrindiau yn ei weld amdanaf ac yn holi lle cefais o, ac yna byddwn yn gwneud rhywbeth iddyn nhw."

Ond geni ei mab bach Lewys – a oedd yn un yn Chwefror – a wnaeth i Sarah ystyried gyrfa iddi hi ei hun, y gallai ei wneud yn ei chartref a'i addasu i gyd-fynd â'i hangen i ofalu am Lewys.

Ac felly ffurfiwyd SL Jewellery and Accessories, busnes manwerthu ar-lein soffistigedig.

Mae Cadwyn Clwyd wedi dod i'r adwy i helpu Sarah gyda Chynllun Bwrsariaeth Fenter Sir y Fflint, cronfa gwerth £130,000 i helpu pobl ifanc 16-30 oed gyda busnes neu fenter gymunedol newydd.

Meddai Sarah, sy'n gyn-ddisgybl o Ysgol Uwchradd Castell Alun yn yr Hob: "Ysgrifennais at Gadwyn Clwyd ar ôl gweld erthygl yn y wasg leol am y bwrsariaethau ac mae wedi bod o gymorth mawr."

Mae wedi arallgyfeirio i engrafu anrhegion ar gyfer priodasau, dathliadau, pen-blwyddi, bedyddio plant, yn ogystal â detholiad o fagiau. Ar yr un pryd mae ei detholiad o emwaith yn cynnwys amrywiaeth eang o ddarnau arian sterling ac ategolion. Gall lapio'r eitem os ydych yn ei rhoi fel anrheg a gallwch hefyd brynu talebau o'i gwefan.

A barnu yn ôl canmoliaeth hael y cwsmeriaid bodlon, mae Sarah, a ddysgodd y grefft iddi'i hun, eisoes wedi gwneud cychwyn addawol. www.sljewelleryandaccessories.co.uk yw cyfeiriad ei gwefan.

Meddai Swyddog Prosiect Cadwyn Clwyd, Sian Roberts: "Rydym yn credu bod gan bawb syniad busnes ond nid oes gan bawb yr hyder i roi cynnig arni.

"Mae cychwyn busnes yn rhywbeth sy'n codi ofn ond gallwn ni leddfu'r ofn yna drwy helpu'n ariannol a rhoi cyngor ac arweiniad arbenigol.

Gall ymgeiswyr ofyn am hyd at 80 y cant o gost y gefnogaeth sydd arnynt ei hangen, hyd at uchafswm o £1,000, gan dalu'r 20 y cant sy'n weddill eu hunain, yn cynnwys defnyddio amser pobl eraill fel arian cyfatebol.

Gellir defnyddio'r arian i brynu offer neu i dalu am adeilad busnes neu wasanaethau eraill.

Mewn amgylchiadau eithriadol gall y cynllun hyd yn oed ystyried ceisiadau am fwy na £1,000.



*Sian Roberts, Swyddog Prosiect Cadwyn Clwyd, gyda Sarah Jackson o Dreuddyn, sy'n gwneud gemwaith.*

# disgyblion yn gadael eu nod ar brosiect treftadaeth

Mae rhyw gynnwrf yn nyfnderoedd y goedwig – mae adfeilion bwthyn bugail 200 oed wedi dod i'r golwg yng nghanol coed a phrysgwydd coedwig yng Ngogledd Cymru. Ers bron i hanner can mlynedd roedd waliau'r adeilad a'r gorlan sydd ynghlwm wrtho wedi eu cuddio gan blanhigfeydd coed pîn a sbriws Coed Nercwys ond bellach maent wedi dod i'r golwg unwaith eto i atgoffa pawb o dreftadaeth amaethyddol yr ardal.

Mae plant o'r Ysgol Gynradd gyfagos yn Nercwys wedi bod yn ymwneud â'r prosiect gan Ardal o Harddwch Naturiol Eithriadol Bryniau Clwyd, y Comisiwn Coedwigaeth a'r asiantaeth adfywio gwledig, Cadwyn Clwyd. Bellach mae'r disgyblion wedi gadael eu nod eu hunain ar hanes yr ardal trwy gladdu capsiwl amser o fewn y waliau a adferwyd – yn cynnwys darluniau a gwybodaeth am bob un ohonynt – i genedlaethau'r dyfodol ei ddarganfod.

Mae'r AHNE yn 25 oed eleni, ac yn arwain y prosiect mae'r Swyddog Cefn Gwlad David Shiel a ddywedodd: "Dim ond waliau wedi cwympo oedd y rhain bedair blynedd yn ôl ond cyn plannu'r goedwig yn 1964 roedd hwn yn rhostir agored ac ar grib y bryn roedd hen fwthyn bugail.

"Torrodd y Comisiwn Coedwigaeth y cnwd o goed ac aethom ati i adfer yr hen waliau gyda'r nod o greu dôl o flodau gwyllt."

Crefftwyr lleol sydd wedi bod yn gweithio ar y waliau dan arweiniad Richard Jones o Sgiliau Cefn Gwlad, a ddywedodd: "Fe wnaethom ddod o hyd i rai pethau a adawyd gan yr adeiladwyr 200 mlynedd yn ôl, hen forthwyl wal a chrib bychan a ddefnyddiwyd, mae'n debyg, ar fwstas.

"Fe wnaethom gladdu ein capsiwl ein hunain hefyd yn cynnwys pob darn arian o 1c i £2 a morthwyl wal ein hunain."

Meddai'r Swyddog Prosiect Keira Derbyshire: "Mae'r prosiect yma'n agor y drws ar y gorffennol ac yn dangos sut y mae



Coed Nercwys wedi datblygu.

"Mae'r ffordd y mae ysgolion lleol wedi cyfrannu at y gwaith adfer yn arbennig o bwysig, gan adael eu holion eu hunain ar gyfer cenedlaethau'r dyfodol."

Meddai Carolyn Thomas, un o Gynghorwyr Sir y Fflint a chadeirydd cyd-bwyllgor ymgynghorol AHNE Bryniau Clwyd: "Rwyf wedi bod yn cerdded yma dros y deng mlynedd diwethaf ac mae'n llecyn hyfryd sydd â hanes diddorol.

"Mae'r prosiect yma'n ychwanegu at ein darlun o'r hyn a arferai fod yma."

Un arall sydd ag atgofion o'r ardal, a adwaenid fel Mynydd Bugail, yw Ray Davies o'r Wyddgrug, sydd bellach yn 89 oed. Meddai Ray: "Roeddwn yn arfer dod yma bron i 80 o flynyddoedd yn ôl i gasglu llus i'w gwerthu yn yr Wyddgrug.

"Mae'n wych gweld y lle wedi'i ailadfer. Arferai'r gylfinir fod yn gyffredin yma, byddech yn gweld 20 neu 30 ohonyn nhw ar y tro a'u clywed yn galw - byddai'n braf eu gweld yn dychwelyd."



*Sophie, disgybl yn Ysgol Nercwys, yn dal y capsiwl amser, gyda'i ffrindiau yn ei gwylio.*

# teithiau gwe yn dathlu un o gewri sir y fflint

Mae gan gerddwyr sydd am ddilyn yn ôl troed gŵr enwog o'r 18fed ganrif, Thomas Pennant o Sir y Fflint, gymorth newydd ar-lein erbyn hyn.
Bellach mae gan Deithiau Pennant o amgylch Chwitffordd eu gwefan ddwyieithog eu hunain ynghyd â chanllawiau rhyngweithiol yn www.cymdeithasthomaspennant.com
Cymdeithas Thomas Pennant sy'n gyfrifol am y syniad. Sefydlwyd y grŵp ym 1990 i ddathlu cyraeddiadau'r teithiwr, y naturiaethwr a'r gwyddonydd a oedd yn ysbrydoliaeth i Darwin.
Dywedodd yr hanesydd lleol Paul Brighton: "Rydym eisiau hybu diddordeb yn Thomas Pennant a galluogi mwy o bobl i fwynhau'r bum daith gerdded a grëwyd yn ei enw drwy'r hyn rydym yn ei alw'n Fro Pennant o gwmpas Chwitffordd.
"Roedd yn ddyn diddorol a llawn apêl ac mae'r diddordeb ynddo'n cynyddu. Cynhwysodd Simon Schama ei ddisgrifiad o'i Tour in Wales yn ei lyfr History of Britain.
"Roedd Pennant yn cymysgu gyda llawer o wŷr blaenllaw'r 18fed ganrif. Cyfarfu Voltaire yn Ffrainc ac roedd yn adnabod Syr Joseph Banks a'r diwydianwyr mawr, John Wilkinson a Thomas Williams."
Mike Roberts, o'r cwmni dylunio gwefannau Delwedd, sydd wedi creu'r wefan, diolch i grant am £5,000 gan yr asiantaeth adfywio gwledig Cadwyn Clwyd drwy ei Brosiect Llwybrau Cerdded Sir y Fflint.
Meddai Mike Roberts: "Gall ymwelwyr â'r wefan edrych ar y llwybrau, eu lawrlwytho a'u hargraffu. Mae yna fap Google o bob taith gerdded y gallwch ei wneud yn fwy neu'n llai gan ddefnyddio Google Earth a gall aelodau'r Gymdeithas ddiweddaru gwybodaeth ar y safle.
"Trwy ddefnyddio I-phones a Blackberries gallwch hyd yn oed gario'r holl wybodaeth gyda chi wrth i chi gerdded ac mae gan bob taith gerdded albwm Flickr er mwyn llwytho darluniau, rhywbeth y gellir ei wneud yn y fan a'r lle gan ddefnyddio ffôn symudol.
"Rydym eisiau annog pobl sy'n mwynhau'r teithiau cerdded yma i rannu eu profiadau trwy sylwadau a darluniau – dylai fod yn brofiad cerdded cwbl newydd."
Lansiwyd y wefan mewn digwyddiad arbennig yn Nhreffynnon pan roddodd yr hanesydd lleol, y Parch Bill Pritchard sgwrs am Daith Pennant o amgylch Ewrop ym 1765 a rhoddodd Mike Roberts arddangosfa o'r wefan.
Ffurfiwyd Cymdeithas Thomas Pennant ym 1990 ar ôl i grŵp o ffrindiau ddod o hyd i fedd Moses Griffith, artist a deithiai gyda Phennant, ym mynwent eglwys Chwitffordd.



*Mike a Jen Roberts o gwmni Delwedd gydag aelodau Cymdeithas Thomas Pennant, o'r chwith, Norman Closs Parry, cadeirydd; Mike Chinery, Meirion Griffith, Dr Goronwy Wynne, llywydd; Ryan Jenner, a Paul Brighton.*

Roedd y bedd wedi'i esgeuluso'n fawr.
Aethant ati i godi £3,000 i dacluso'r bedd ac ym 1996, i ddathlu 200 mlynedd ers cyhoeddi ei lyfr mwyaf adnabyddus, The History of the Parishes of Whitford and Holywell, plotiwyd y pum taith gerdded dros 26 milltir a threfnwyd darlith flynyddol.